
# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES



RHIF 19 – PASG 2010



Bras yr eira, Abergele, Mawrth 14eg. Un o ymwelwyr prin y gaeaf.
Llun - Emyr Evans

# BRAS YR EIRA

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- DIWRNOD YNG NGWARCHODFA'R RSPB, CONWY
- NID WRTH EI BIG – Y CYFFYLOG
- DATHLU DAUGANMLWYDDIANT Y COB

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

# Golygyddol

Fi, Twm, sy'n cyfansoddi'r Golygyddol y tro hwn yn absenoldeb ein Prif Olygydd ffyddlon arferol. Mae Rhodri ac Eleri wedi mynd am galifánt i fynyddoedd Nepal am ryw ysbaid fach. Ond ddim heb addo, yn gyntaf, ddarlith i'r Gymdeithas ac ysgrif i Lygad Barcud am eu hanturiaethau cyn diwedd y flwyddyn!

I'w riportio:

***Y wefan*** – diolch i ymdrechion Gareth mae gwefan y Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth. Yr hyn sydd ei angen bellach yw i chi ymateb iddi! Felly, dewch a'ch cofnodion adar, sylwadau ar wahanol bethau a chyfranwchi'r trafodaethau yn y Seiat Holi.

***Gweithdy Cob 200*** – fe welwch adroddiad am y gweithdy a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch ar Fawrth 20fed i drafod ein cyfraniad at ddathliadau daucanmlwyddiant y Cob, Porthmadog yn 2011. Sylwch hefyd, ar y dudalen gefn, bod manylion am yr hyn fydd yn digwydd nesa, sef cyfres o weithdai, yn cychwyn fis Mai, i ddarparu taflen a llyfryn am adar y Cob. Mae'n gynllun cyffrous iawn ac fe gewch ch'ithau gyfle i fod yn rhan ohonno – o'r cynllunio i'r cynhyrchu. Croeso i bawb i ymuno â ni.

***Gweilch, gweilch, gweilch*** – da oedd clywed bod gweilch y Glaslyn yn eu holau am eu 6ed tymor – y ceiliog yn ôl ar Fawrth yr 22ain, a'r iar ar y 23ain – y ddau ohonynt un diwrnod yn hwyrach na'r llynedd. Ac ar Sul y Pasg, Ebrill y 4ydd, roedd pâr Morfa Dyfi yn eu holau – hei lwc iddynt yn 2010.

***Enillwyr Raffl Steddfod y Bala*** – rywsut neu'i gilydd fe adawyd allan o'r rhifyn d'wetha ganlyniadau Raffl Fawr y Gymdeithas yn Steddfod y Bala. Felly, dyma nhw ichi:

1af – taith natur efo Iolo : Eirlys Jones, Llangwm
2il – taleb Cotswold, £25 : Iola Jones, Rhosfawr
3dydd – pecyn llyfrau : Eirwen Kelly, Swydd Amwythig
4ydd – potel o wisgi (*Famous Grouse* – be arall gan adarwyr?) : Karen Bateman, Penrhyn
5ed – potel o win : Anet Bryn Parry
6ed – aelodaeth blwyddyn o'r Gymdeithas (am ddim!) : yr hynaws John Parry, Minffordd

***Be ydi'ch e-bost chi?*** – i hwyluso cysylltu â chi he bi Brian orfod llyfu 'cefn' stamp hefo llun yr hen gwîn 'na arno (mae'n cwyno am y blas drwg!), mi fyddem yn gwerthfawrogi derbyn eich cyfeiriad e-bost diweddaraf, h.y. os oes gennych y fath beth? Gyrrwch neges. Felly, at Rhodri: r.dafydd@ccw.gov.uk . Byddwn yn medru gyrru gwybodaeth am weithgareddau atoch yn fwy rheolaidd ac amlach wedyn. Bydd y di-e-bost yn dal i dderbyn pob dim drwy'r post arferol.

**Y wefan: www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

## Yr ŵy, y wningen a'r Pasg

*Wyau Pasg* – mae ŵy yn symbol o gychwyn bywyd newydd yn y gwanwyn. Ar sail hynny bu'n rhan o hen ddefodau, yn enwedig i ddathlu'r Cyhydnos, Mawrth yr 21ain, pan fydd oriau golau dydd, o'r diwedd, cyhyd ag oriau'r nos. Byddai plant yn casglu wyau go iawn ers talwm; wyau siocled heddiw.

*Y wningen â'r Pasg* – sail y cysylltiad rhwng y wningen a'r Pasg ydi bod pobol, ryw dro, wedi camgymeryd nyth cornchwiglen am wâl s'gwarnog. Roeddent yn meddwl mai s'gwarnog oedd wedi dodwy'r wyau! Yn ddiweddarach bu iddynt gymysgu rhwng y s'gwarnog a'r wningen...

**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 19 – Pasg 2010**

**Golygyddion :**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr :**
Sian Jones, Iwan Wyn Rees, Huw Dafydd Jones, Dafydd Guto, Emyr Evans, Twm Elias, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd :**
Iolo Williams

**Llywydd Anrhydeddus :**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud* :**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud* :**
Rhodri Dafydd, Ty Chwarel, 1 Ffordd Cwm, Penmachno, Betws y Coed, Conwy LL24 0UN, (01690) 760 588

**Trysorydd :**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Mehefin os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr *Llygad Barcud*. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Siopau Crib Goch**, Caernarfon a Llanberis – 10%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Nid wrth ei big...

Rhodri Dafydd

**Am ryw reswm, dros y gaeaf eleni rwyf wedi sylwi yn amlach nag erioed ar aderyn sydd yn enwog am ei big unigryw. Ar ôl clywed un ohonynt yn rhodio (ei ehediad a'i swn tiriogaethol) yn wylofus yr haf diwethaf, es ati i ddarllen mwy am yr aderyn bach od yma. A dyna lwc, oherwydd dros y gaeaf rwyf wedi dod ar eu traws yn wythnosol bron!**



www.derekhess.com

Aderyn bach od? Wel, od o ran edrychiad efallai. Y peth cyntaf i'ch taro amdano yw'r big hir yna, ond fel y gwyddwn yma yng Nghymru ni ddylid mesur (na phrynu) hwn wrth ei big! Pig ddelfrydol i dwrio drwy ddail gwlyb llawr y goedwig yw hon, ond, wrth hedfan, mae'n ei dal ar ongl llawen serthach nag a fyddech yn ei ddisgwyl mewn rhydiwr arferol, h.y. ar ongl at i lawr.

A dyna'r pen yna wedyn, a'r ddwy lygad fawr ddu ar y naill ochr, yn uwch ar y pen nag a feddyliech y dylent fod. Ydy, mae'r hen gyffylog yn aderyn anghonfensiynol ac unigryw ei olwg.

Od yw ei batrwm dyddiol hefyd. Er nad yw'n dylluan nac yn droellwr, yn ystod y nos y bydd yn bywiogi, gan fanteisio ar gysgod y gwyll i fyw ei fywyd o'n golwg gan amlaf. Yn ystod y dydd bydd yn swatio'n dyn ar lawr y goedwig, a'r cuddliw perffaith (mor dda fel bod rhai o'r farn mai dyma guddliw gorau byd natur gyfan) yn toddi i'r dail a'r brigau. I gydfynd a'r cuddliw bydd yn gallu rhewi heb symud gewyn na phluen gydol y dydd - hyd yn oed pan fydd perygl gerllaw, bydd yn swatio tan yr eiliad olaf cyn codi.



Clay a Pat Sutton

Yr adeg gorau i weld ein cyffylogod brodorol yw nosweithiau golau'r gwanwyn, yn arbennig pan fydd y lleuad yn llawn ac yn goleuo'r ffurfafen rhyw ychydig bach – wel digon i'n llygaid ni beth bynnag. Dyma'r adeg y bydd yr adar yn mynd at i rodio ymylon y coedwigoedd ble byddant yn magu. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, gellir gweld eu hamlinell yn glir yn erbyn yr awyr ar noson braf, a chlywed y sain annaearol y byddant yn ei wneud i ddatgan eu tiriogaeth. Nid cân yw hon, ond yn hytrach swn arbennig y mae'r plu yn eu gwneud wrth i'r aderyn 'ddawnsio' yn yr awyr i ddenu cymar. Â rhai mor bell a dweud y gellir amseru'r rhodio hwn i ddau funud wedi'r machlud, mor rheolaidd y weithred yn ystod ei thymor!



Jamestown Audobon Centre

Dros y gaeaf daw niferoedd ychwanegol ohonynt draw yma o ogledd ddwyrain Ewrop i osgoi caledi rhewllyd yr Arctig. Credai helwyr gynt fod gwyntoedd oer y dwyrain yn peri i'r cyffylogod godi o bridd y goedwig – ond wrth gwrs gwyddwn erbyn hyn mai dyfod yma *gyda'r* gwyntoedd hyn a wnant, gan obeithio y bydd Ynsoedd Prydain yn gynhesach â'r pridd yn ddigon medal i gael eu pig iddo. Dyma pam, wrth gwrs, yr wyf wedi dod ar draws cymaint ohonynt y gaeaf yma – er na chawsant ddianc tywydd rhewllyd yma o bell ffordd eleni yn anffodus.

Gall cyfnodau maith o rew ac eira fod yn farwol i'r cyffylog gan na all fwydo – caiff ei effeithio yn fwy na rhydwyr eraill gan nad yr arfordir yw ei gynefin. Yn wahanol i'n traethau a'n haberoedd bydd priddoedd gwlyb y mewndir yn rhewi, ac yn rhewi'n gorn ar hynny, gan nadu unrhyw fwydo. Cofnodwyd may o gyffylogod marw wedi gaeaf caled 1962/3 nag unrhyw aderyn arall – dim ond gobeithio na fu 2009/10 mor drychinebus.

Gwelais rai ohonynt mewn llefydd go anghysbell cyn i'r gaeaf gyrraedd o ddifri. Ym mis Rhagfyr roeddwn yn troedio llecyn gwlyb eithriadol, brwynog a mwsoglog ger yr afon Conwy, ymhell o'r ffordd sy'n ymlwybro'r ucheldir anial rhwng ffynnon Eidda ac Ysbyty Ifan. Bu tirlithriad enfawr yma ar ôl glaw yr hydref, a thra'n mynd ati i astudio'r tirffurf newydd yma a'm meddwl ymhell i ffwrdd (yn ceisio pendroni am y swm anghredadwy o ddwr fyddai ei angen i oresgyn y ffrithiant sy'n cadw gronynnau pridd ynghyd fel arfer – bydd, mi fydd fy meddwl yn crwydro at feterion felly yn achlysurol!) ffrwydrodd aderyn brown o'r clwmp o frwyn oedd bron o dan fy nhroed, gan roi y nesa peth i drawiad calon i mi ar yr un pryd! Ie, dyna'r big nodweddiadol honno eto, ac i ffwrdd a fo i fyny gyda llwybr nant fechan, dros y grib ac o'r golwg.


Dro arall, a minnau'n gyrru adre yn hwyr yn y nos, a storm o eira yn cau i mewn heibio ffynnon Eidda, y miloedd o blu yn chwyrlio yn llesmeiriol yng ngolau lampau niwl y car – dyna sylwi yn sydyn ar aderyn yn saethu allan o'r ffos ar

fin y ffordd, cyn diflannu o'r goleuadau llachar i dywyllwch dudew ehangder y Migneint. Beth fu ei dranc tybed ar y noson oer honno? Dal i syrthio'n ddi-baid a wnaeth yr eira, ni phallodd am rai wythnosau wedyn ar y topiau. Hoffwn feddwl fod hwn wedi ei throi hi am y gorllewin ble nad arhosodd yr eira mor hir... ond pwy a wyr?

Un bore y llynedd gwelais nid llai na thri ohonynt yn codi o ymyl y ffordd ar lannau llyn Celyn. Roedd y pridd llaith a chysgod y coed yn berffaith iddynt dwi'n amau dim, hynny hyd nes i swn rhuo injan betrol darfu ar eu heddwch!

Yn yr un modd mae coedydd helyg a gwern gwlyb yr iseldir a'r arfordiroedd yn gysgodfa werth chweil iddynt allan o oerfel iasoer yr ucheldiroedd. Coedydd gwlyb fel a geir ymysg y corsydd bychain ar warchodfa'r RSPB yn Ynys Hir. Rai blynyddoedd yn ôl gorchuddwyd rhan helaeth o'r corsydd gan fforest drwchus o *Rhododendron* estron. Ond wedi gwaith dygn i dynnu'r pla a thrin y bonion fel na allent ail-dyfu (gwaith sydd yn dal i ddigwydd gan mor styfnig yw'r estron hwn o'r Himalaya) adferwyd nifer o orgorsydd bellach – cynefin perffaith i adar megis y cyffylog, ac efallai yn fwy arbennig, y gïach.

Yma ym mis Chwefror gwelais ddau gyffylog eto, yn aros bron tan i mi sefyll arnynt cyn codi. Swatio gan ddefnyddio'r llygaid bach duon 'na sydd ar ochr y pen (ac yn rhoi golygfa 360 gradd iddo) i asesu pob perygl. Mae straeon fod pobl wedi gyrru drostynt, gydag olwyn *Land Rover* y naill ochr i'r aderyn, a'u bod wedi eistedd heb symud gan obeithio y byddai'r cerbyd yn mynd heibio heb eu niweidio.




Karen Fung

Ond pan fo'r perygl yn ormod, gallant symud yn o sydyn – codi yn syth i'r awyr a hedfan yn igam ogam – camp i saethwr gael siot arnynt. Ond dyna hanner yr hwyl ebe'r heliwr, er na wela i pa fath o hwyl sydd i'w gael mewn chwythu aderyn mor hardd i ebergofiant.

Mae cofnodion hela yn awgrymu y bu'r cyffylog yn fwy cyffredin ar un adeg. Dywed George Owen o Benfro yn 1603: *'yt ys no strange thing to take a hundred or sixe score in one woodd in xxiiii hours if the hunt be good.'* Saethodd Oakeleys Plas Tan y Bwlch 15 cyffylog mewn helfa yng ngoed y Plas ddiwedd Tachwedd 1894, ynghyd â 958 o ffesantod, a 32 o chwiaid ar Lyn Mair.

Digon dealladwy yw greddf unrhyw greadur i amddifyn ei hun a'i deulu, yn naturiol, ond mae gan y cyffylog dric arbennig iawn – i aderyn o leiaf. Oherydd, yn y tymor magu gall y cyffylog gario ei gywion ifanc yn ei draed allan o gyrraedd perygl – yr unig aderyn i allu gwneud hyn. Yn wir, mae cofnodion prin iawn fod ambell un hydnoed wedi gweld cyffylog yn hedfan gan gario cywion ar ei gefn – dyna olygfa hynod yn wir fyddai honno!

Od, efallai, ond un diddorol yw'r cyffylog. Edrychaf ymlaen i weld a chlywed y rhodio swnllyd gyda hyn!

# Diwrnod gydag Athrawes Maes yng Nghonwy

Sian Jones

**Rydw i yn ffodus iawn o gael swydd sydd wrth fy modd, swydd athrawes maes ar Warchodfa Natur yr RSPB yng Nghonwy. Mae'r Warchodfa ger Cyffordd Llandudno, rhwng yr A55 ac aber yr Afon Conwy. Mae o'n safle gwych; y Carneddau yn codi yn y pellter a Chastell Conwy i'w weld dros yr afon, a'r olygfa yn newid yn gyson gyda symudiad y llanw.**

Mae ysgolion cynradd heddiw o dan gyfarwyddyd i gyflwyno'r amgylchedd i'r plant, Dylai'r plant fedru adnabod cynefinoedd gwahanol a darganfod pa fath o greaduriaid sy'n byw ynddynt. A lle gwell i ddod ar gyfer hyn na Gwarchodfa Natur Conwy? Mae chwech o athrawon maes yma, pob un ohonom yn gweithio'n rhan amser, â'r gwaith yn cael ei rannu rhyngddom fel 'deni'n dewis. Bydd un athro ar gael ar gyfer pob pymtheg o blant, ac felly dau neu dri ohonom sy'n gweithio ar unrhyw ddiwrnod. Mi fyddwn yn cyfarfod am naw yn y 'stafell ddosbarth i baratoi offer a thrafod trefn y diwrnod. Mae'r plant yn cyrraedd am ddeg , a dyna ni wedyn - y diwrnod yn dechrau go iawn.

Pawb i mewn i'r dosbarth i ni roi cyflwyniad bach am y safle, a chyfle i ni ddod i 'nabod ein gilydd.

A rwan mae'r hwyl yn dechrau. Mi fyddwn yn pwysleisio mae eu diwrnod nhw ydi hwn, eu bod nhw'n mynd i droi'n 'DDITECTIFS NATUR' a bod yn rhaid iddyn nhw ddarganfod be sy'n byw ar y warchodfa drwy ddefnyddio'u synhwyrau. Cyn mynd allan wrth gwrs mae 'na waith gwneud yn siwr fod pawb wedi 'i wisgo'n briodol, cotiau wedi cau, cap am ben, welingtons am draed os ydi'n wlyb, sychu trwyn ac ymweld â'r ty bach. DIM OND UN SYDD AR Y SAFLE, A FYDDWN NI DDIM YN AGOS ATO FO TAN AMSER CINIO!!! Pawb i drio. A ffwrdd â ni. Mi fyddwn ni'n ymweld â dau gynefin yn y bore a dau arall yn y pnawn.

Felly dyma ryw syniad bach i chi o be all ddigwydd ar y diwrnod. Mi gychwynwn am dro drwy'r maes parcio nes cyrraedd aber yr Afon Conwy. Cyfle'n fan hyn i edrych o'n cwmpas, sylwi ar y tirwedd a gweld pa adar sydd ar y dŵr, neu'r mwd, yn ôl sefyllfa'r llanw. Mae'r crëyr glas, y crëyr bach, bili dowcar, elyrch a rhydyddion o bob math ar yr aber. Digon o gregyn , gwymon a llanast wedi cael eu golchi i fyny hefo'r llanw, sydd i gyd yn destyn trafodaeth. Sut bod cregyn cocos wedi cyrraedd y llwybr? Ôl traed beth sydd ar y mwd? I be mae'r codau bach ar y gwymon yn dda? Cau llygaid ac arogli'r heli yn y gwynt. Rhyfeddu ar degeirian y gwenyn ddiwedd Mehefin a throi trwyn ar faw llwynog wedi ei adael yn daclus ar ochr carreg. Mae 'na blu amrywiol, ffwr a thyllau cwningod ac weithiau beli tylluan. A sgyrsiau di-ri' yn cael eu cynnal ymysg y plant. Cawn chware gêm "be mae'r bioden yn ei ddarganfod?" ac mae'r plant eisiau mwy.

Gadael yr Aber ac i mewn i'r warchodfa. Mae'r tir yn cael ei reoli mewn mannau ar gyfer y gornchwiglen ac, i'n helpu i wneud hyn, mae chwe' merlen o'r Carneddau wedi eu cludo yma ac yn pori'n dawel. Mae nhw'n pori pob math o blanhigion, ac yn ogystal â chadw'r tir yn glir mae eu carnau yn creu pantiau yn y ddaear sy'n fannau delfrydol i'r gornchwiglen ddodwy ei hwyau .

Mi fydd gwahanol fathau o wenoliaid yn gwibio uwchben yn ystod yr haf ac mi fydd hyn yn gyfle i sôn am adar yn mudo, a phawb yn rhyfeddu clywed bod y wennol ddu yn cysgu ar ei haden. Dilyn y llwybr rhwng y llwyni drain a mieri lle byddwn yn gweld a chlywed cannoedd o gacwn a gwenyn yn hymian ar ddiwrnod braf. Mae sbort i'w gael wrth geisio darganfod sawl lliw gwahanol sydd i benolau cacwn. A 'deni'n llwyddo i ddarganfod rhai oren, hufen ac weithiau rhai tywyll, a sylwi bod pob math o wenyn a phryfaid hofran eraill yn chwilio am neithdar yn y blode. Yna mi ddown at y lle mae'r fronfraith yn malu cregyn malwod a gweld bod yna rai pinc a melyn a brown wedi eu malu'n fan. Darganfod lle gwych sy'n llawn twneli bach yn mynd yn syth i mewn i'r drain , tybed pa anifail sydd yn gallu pasio trwyddynt? A'r llwybrau bach dirgel lle mae rhywbeth yn eu cerdded yn gyson? Cynigir enwau pob math o anifeiliaid, fel llwynog a blaidd a meerkats!

Mi awn i mewn i guddfan sy'n edrych dros y lagwnau ac mi fydd y plant wrth eu bodd yn cael defnyddio sbienddrych, i weld yr adar ar y dŵr. Yn ddi ffael mi fydd cwtiar, iâr ddŵr, hwyaid gwylltion, corhwyaid, elyrch, gwyddau ac yn aml hwyaden lwyd i'w gweld. Mi fydd hwyaid yr eithin a'u pennau yn y dŵr a'u penolau yn yr awyr a gwyach fach a hwyaden gopog yn plymio o dan y dwr a chodi yn rhywle gwahanol. Mi fydd crëyr glas yn stelcian wrth yr hesg a gylfinir a chornchwiglen ar yr ynysoedd, a giach ac weithiau, weithiau gïach fach i'w gweld. Mae glas y dorlan a rhegen y dŵr yma hefyd ond ddim yn dod i'r golwg yn aml iawn. Yn y fan yma mi fyddwn ni'n chwarae sefyll yn llonydd fel crëyr glas a dal ein gwynt fel gwyach fach nes bod ein wynebau'n biws.

Mi fydd cinio'n fendigedig ar ôl yr holl chwilfrydedd. Pawb ar lwgu, a'r frechdan yn flasus. Llowcio paned ar ein traed, ac ymhen hanner awr mi fydd pawb yn ysu am fynd allan unwaith eto. Dau gynefin arall yn y pnawn, y glaswellt a'r pwll.

Dwi'n hoffi'r gair TRYCHFIL, gair gwych sy'n swnio dipyn yn ych a fi a brawychus. Mae'r plant wrth eu bodd yn y glaswellt ac o amgylch y wal gerrig yn darganfod trychfilod bach o bob math. 'Den ni'n sylwi ar nifer y coesau, sut mae'r trychfil yn symud, y lliw, y siâp, ac yn trafod be mae o'n debyg o fod yn ei fwyta. Mi ddaw 'na waedd os bydd rhywun wedi darganfod llyffant, ac mi fydd pawb eisiau gweld, a'i gyffwrdd. Wrth 'sgubo rhwydi drwy'r gwair daw'r plant o hyd i sboncyn y gwair, lindys, gwyfyn a phryfaid eraill, digon i'w cadw'n brysur tan y cynefin ola.

Dwi'n credu mai'r profiad o ddarganfod be sy'n byw yn y pwll sy'n creu'r chwilfrydedd mwya yn y

plant. Mi fydd pawb yn cael eu rhoi mewn grwpiau o ddau neu dri. Bydd rhwyd, padell wen, llwy a photyn ar gyfer pob grwp, a phawb yn cymryd eu tro i roi'r rhwyd yn y dŵr a gwagu ei gynnwys i'r badell a sbio mewn rhyfeddod ar yr holl greaduriaid bach diarth sy'n cael eu dal.


Sian yn dal 'slywod

Ddwy flynedd yn ôl darganfuwyd fod *Crassula helmsii*, chwyn dŵr o Seland Newydd yn tyfu yn y pwll, ac ymhen dim 'roedd wedi tyfu nes hanner lenwi'r pwll. 'Roedd yn rhaid trio cael gwared ohonno, ac ar ôl hir ystyried gwahanol syniadau, penderfynwyd gorchuddio'r pwll â phridd, fel bod dim modd i'r *Crassula* chwalu. Flwyddyn yn ôl crewyd pwll newydd ryw hanner can llath i ffwrdd. Ni roddwyd yr un creadur nac anifail yn y dwr, ond bob wythnos, 'roedd rhywbeth newydd yn cael ei ddarganfod yno. 'Roedd cofnodi'r gwahanol rywogaethau yn hynod o ddifyr, ac eleni 'den ni'n disgwyl yn eiddgar i weld os bydd grifft llyffant wedi ei ddodwy yno.

Ar ddiwedd y p'nawn bydd cyfle am ryw ddeg munud i rannu profiadau cyn y rhuthr gwyllt o gyfri pennau, ffeindio bocsus bwyd, cotie a chapie a llwytho'r criw yn ôl ar y bys. TAWELWCH!! A theimlo'n braf, criw arall wedi mwynhau ac wedi darganfod rhywbeth am y byd o'u cwmpas.

'Does byth drafferth hefo'r plant ar y warchodfa, pawb yn gwrando ac yn ymddwyn yn briodol. Ond mae un diwrnod yn sefyll allan yn y cof. Mi gyrhaeddodd dosbarth o 45 o blant deg oed o un o ysgolion tref fawr cyfagos. Wedi rhannu'r dosbarth yn dri grwp, darganfod yn fuan iawn fod Josh hefo fi. I gychwyn 'doedd gan Josh yr un gôt ac 'roedd hi'n pigo bwrw. Ffeindio côt sbâr iddo yn y cwpwrdd.. 'Doedd Josh ddim yn gallu canolbwyntio rhyw lawer ac yn rhuthro yn ôl a mlaen. Weithiau'n darganfod rhywbeth, weithiau'n amharu ar y plant eraill. Cafodd y cyfrifoldeb o ddefnyddio'r camera i dynnu lluniau pethau diddorol ar y daith, ac 'roedd hynny'n plesio am ychydig. Ar ôl cinio a phawb yn brysur wrth y pwll, dyma splash, 'roedd Josh wedi syrthio i mewn i'r dŵr ac wedi dychryn yn arw. Dyma ei bysgota allan o'r dŵr bâs a'i yrru hefo'r cynorthwydd i nôl dillad sbâr o'r cwpwrdd. Josh tipyn tawelach oedd hefo ni am yr ugain munud olaf! Wrth ddanfon y plant at y bys dyma Josh atai o rhywle, codi bawd a deud yn sobor "*Best day ever*".

A dyma sylweddoli mod i'n lwcus, achos mae hi'n "*best day ever*" arna' i bron bob dydd.

# Lle saff am siff-saff

## – adroddiad am daith Talsarnau, Mawrth 27ain, 2010

gan Twm Elias

**O tua canol Mawrth gallwn ddisgwyl gweld rhai o'n hymfudwyr cynta yn pasio drwodd am y gogledd. Ac yn wir, cafwyd sawl adroddiad yn yr wythnos cyn y daith am dinwenod y garn, siff-saffod a wenoliaid ayyb o sawl cwr o Gymru.**



Y criw selog: Ieuan, Sian, Gwenan, Gwenda, Dewi, Gareth, Twm a Huw

Lle da i weld y teloriaid cyntaf: y siff-saff o ganol Mawrth a'r telor helyg erbyn tua diwedd y mis, ydi'r coed bychain – drain duon, helyg, gwern, cyll ayyb – sy'n tyfu'n rhes ar hyd ymyl yr aber yn Ynys, Talsarnau. Mawr oedd fy ngobaith, felly, y byddem yn cael croesawu rhai o'r ymfudwyr bach 'ma yn Nhalsarnau.

Roedd hi'n ddiwrnod da iawn o ran y tywydd. Wrth lwc, roedd y glaw gawsom ni y rhan fwya o'r wythnos wedi peidio a doedd yr oerfel roedd y dynion tywydd yn fygwth at ddechrau'r wythnos nesa ddim wedi cyrraedd. Dim llawer o haul ond golygfeydd gwych dros yr aber am Porthmeirion a'r mynyddoedd yn y pellter efo rhywfaint o esgyrn eira neu 'eira gwadd' (dywediad o ardal Cricieth) yn dal arnynt, ac yn arwydd bod y gweddillion eira hyn yn aros am fwy, neu yn gwahodd mwy o eira atynt.

Roedd 'na ddau greyr gwyn bach ar y morfa o'n blaenau; chydig o chwiaid gwylltion; dwy ŵydd Canada a nifer dda o ladi ffowls, sef yr enw yn ardal Talsarnau am chwiaid yr eithin. Roedd rhyw 80 i 100 o'r ladis ymhell allan ar y tywod o gwmpas Ynys Gifftan. Am ryw reswm 'doedd yr un chwiwell na chorhwyaden i'w gweld yn unman. Tybed oedden nhw wedi ymadael yn barod?

Draw a ni rownd trwyn Llechollwyn a dilyn ymyl y morfa heli i'r gorllewin am ryw hanner milltir tuag at Clogwyn Melyn. Nodi corhedyddion yn canu uwchben y morfa, cigfrain yn crawcian dros y tir a bronfreithod, llinosiaid gwyrdd, sguthanod, dryw bach, titws ac adar duon yn y coed ar hyd yr ymyl. Y ffaith bod y coed yn tyfu'n rhes yma sy'n gwneud y lle mor dda am adar bach mudol, am fod y rheiny yn hoffi dilyn llwybr naturiol coridor y coed ar eu ffordd tua'r gogledd.

Bloedd sydyn: "oooO! *#@%!#**!!" – roedd Gareth druan wedi cael socsan ym mwd y morfa! Bu pawb yn ofalus iawn ohono am weddill y dydd, yn ei rybuddio pob tro y deuem at le gwlyb i un ai fynd rownd neu drosto yn hytrach na chamu iddo.


Gadael y morfa wrth Clogwyn Melyn ac aros i wylio a gwrando ar gryn dipyn o adar mân yn y coed o'n cwmpas. Yna, ar goeden helyg reit wrth ein hymyl, dyma glywed 'siff-saff, siff-saff', a fanno oedd o, ngwash bach del i. Roeddem i gyd yn falch iawn o'i weld o ac yn teimlo'n ysgafn ein calonnau a'n traed am weddill y siwrnai, heblaw am yr un oedd yn mynd 'sgweltsh' bob yn ail cam.

Dilyn y ffordd dros y gefnen wedyn bron at bentre Ynys, gan sylwi ar ambell friallen a llygad Ebrill yn y gwrychoedd – ew, on'd ydy' nhw'n hwyr 'leni wedi oerfel Ionawr a Chwefror? Yna troi drwy'r caeau at Eglwys Llanfihangel y Traethau. Mi welsom ddrudwennod, adar to, sgrech y coed, sawl robin a llwyd y gwrych ac, wrth gyrraedd yr Eglwys, clywed peunod Rhyd Goch yn gwaeddi 'glaw, glaw'. Mae nhw'n cael eu galw'n adar y glaw oherwydd yr alwad yma, ond lwyddon nhw ddim i 'agor balog y cymylau' heddiw, diolch i'r drefn.

Picio i'r fynwent, lle gwelsom nico a chlywed cri gylfinir yn hedfan uwchben. Gwelsom y garreg goffa hynafol yno ac aeth rhai i weld bedd y greadures ryfedd honno Mari'r Fantell Wen (1735 - 1789). Ymlaen wedyn ar draws y caeau at Llechollwyn ac yn ôl i'r maes parcio am ginio.

Ar ôl bwyd troi i gyfeiriad yr hen warws ar y clawdd llanw a dilyn y llwybr i gyfeiriad Glan y Wern. Roedd haid o ryw 20 corhwyaden a nifer debyg o chwiws (chwiwellod) yn y pwll tu ôl i'r clawdd. Yn fan'ma oedden nhw i gyd felly, y nifer fechan oedd ar ôl o'r cannoedd fu ar y morfa dros y gaeaf.

Wrth ddynesu at Glan y Wern mi welsom alarch yn yr afon; bwncath yn cael ei erlid gan frain a chnocell fraith fwya yn diflanu i'r coed uwchben y tai. Croesi'r ffordd ger Pont Fuches Wen a dilyn yr afon heibio'r gwely hesg at hen ffordd Harlech. Dilyn y ffordd honno i'r chwith am ryw 150 llath a rhyfeddu at waith y cnocell fu'n tyllu polyn trydan yn y cae.



Ddarllenodd o ddim mo'r arwydd, mae'n amlwg!

Yna troi i'r cae a dilyn y llwybr i fyny'r llethr – jyst mewn pryd, oherwydd, fel yr oeddem yn cyrraedd pen ucha'r cae, dyma 'na dractor yn tynnu clamp o chwalwr tail mawr yn dwad trwy'r giat!

Dringo wedyn i gyfeiriad pen y Benbo, gan aros i sgwrsio am y marblis coed oedd ar lawr dan y derri a'r titw gynffon hir ddaeth heibio uwchben. Wel dyma olygfa wych o'r grib dros yr aber y tu cefn inni a llethrau'r Moelydd o'n blaenau. Roedd yn bleser cael gwrando ar Gwenda a Dewi yn trafod enwau'r ffermydd a phwy oedd yn byw ynddynt.


Ymlwybro i lawr y llethr a thrwy'r coed at Caerffynnon ger Talsarnau, a chyfri 22 o nythod ydfrain yn y franas grawclyd ger y ffordd fawr. Croesi'r morfa i gyfeiriad Draenogan a thros y rheilffordd a'r clawdd llanw ac yna'r bont droed posh ar y glastraeth cyn cyrraedd yn ein holau i'r maes parcio. Pawb wedi mwynhau'n arw – diwrnod bendigedig.

# Dathlu 200 mlwyddiant y Cob, Porthmadog yn 2011

Gweithdy Plas Tan y Bwlch, Mawrth 20fed 2010

Twm Elias

**Ar fyr rybudd iawn y galwyd pobol at ei gilydd i gynnal gweithdy i drafod ein cyfraniad ni tuag at ddathlu 200 mlwyddiant y Cob, Porthmadog yn 2011. Bu'n syniad gennym i ddarparu taflen neu lyfryn ar adar y Cob a'r cyffiniau ers rhai blynyddoedd ac roedd y cynnig o nawdd gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr i wneud hynny yn un rhy dda i'w wrthod!**



Y Cob, tua 1810

Felly, er mai rhyw fythefnos ynghynt yr oeddem wedi deall fod arian ar gael at gynnal y gweithdy dyma fynd amdani! Cafwyd ymateb da iawn - daeth 11 at ei gilydd (dan arweinyddiaeth Twm Elias a Brian Paul) ac roedd o leia 9 o ymddiheuriadau.

Cychwyn y dydd drwy gyfarfod ym Mhorthmadog a mynd rownd y Cob Crwn a rhywfaint ar hyd y Cob ei hun i nodi pa lecynnau y dylsem dynnu sylw atynt yn y daflen arfaethiedig. Roedd rhai yn ddigon lwcus i weld gwennol y glennydd yn gwibio'n gyflym dros Ynys Tywyn i gyfeiriad y gogledd. Roedd hynny'n arwydd da iawn i'r diwrnod.

Ymlaen a ni wedyn i Blas Tan y Bwlch lle cafwyd trafodaeth frwd ar y posibiliadau a chael clywed gan Selwyn Griffiths, Cyngor Tref Porthmadog ac aelod o Cob 200, am be oedd ar y gweill ar gyfer y dathliadau yn 2011.

Wedi edrych ar nifer o wahanol daflenni i gael syniad o be fyddai'n bosib, a thrafod y costau, y grantiau posib a phwy fyddai'n cyhoeddi ayyb, penderfynwyd canolbwyntio ar ddau fath o gyhoeddiad:


**1.) Taflen liwgar fyddai ar gael am ddim mewn siopau a llefydd eraill yn yr ardal.**
Hon i gynnwys map, golygfeydd, a lluniau o adar y gellir eu gweld yma drwy'r flwyddyn.

**2.) Llyfryn lliwgar yn manylu ar gynefinoedd ac adar ac yn son am yr adar prin a welwyd yma dros yr oddeutu 10 mlynedd ddiwethaf.**
Bydd angen tâl am hwn ac fe'i bwriedir ar gyfer adarwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn byd natur yn bennaf.

Cynhelir gweithdai eraill dros y misoedd nesa i fynd a'r maen i'r wal – edrychwch dan '***Gweithgareddau***' ar y dudalen gefn. Croeso ichi ymuno â ni ac i gynnig syniadau. Dyma gyfle gwych ichi hogi'ch sgiliau; dysgu am sut mae'r prosesau cynhyrchu a chyhoeddi yn gweithio a chael hwyl a boddhad drwy gyfrannu at rhywbeth gwerth chweil.

# Teyrnged i Gareth Rees

**Ar nos Fawrth y 5ed o Ionawr, collwyd Gareth Rees, Harlech, yn ddisymwth mewn damwain drychinebus a achoswyd gan yr eira a'r rhew a gafwyd ddechrau'r flwyddyn. Yr oedd Gareth yn aelod ffyddlon a gwasanaethgar o Gymdeithas Ted Breeze Jones ers y cychwyn cyntaf – 'doedd o byth yn methu taith, ac yn gwmni hwyliog a difyr bob amser. Bydd yn golled i ni ar ei ôl. Yma ceir teyrnged i Gareth gan Iwan Wyn Rees, ei fab, fel a draddodwyd yn angladd Gareth yn Eglwys y Santes Fair, Harlech, Ionawr 15fed 2010.**



Yma i gofio am un a oedd yn annwyl iawn gan gynifer ohonon ni yr ydan ni heddiw, ac i lawenhau yn ei fywyd annisgwyl o fyr. Ond er gwaetha' byrhoedledd ei oes, fe allwn ni fel teulu a ffrindiau iddo ymhyfrydu yn ei fywyd llawn a phrysur. Mae'n amlwg inni i gyd mai gwr a oedd yn byw bywyd i'r eithaf oedd Dad; un oedd yn byw ei ddiddordebau - rhwng pysgota, mynydda, gwylio adar, garddio, potshian yn y cwt â phob math o geriach, beicio, gwylio ceir rali a rasus moto-beics, saethu colomenod clai (nid adar, dwi'n prysuro i'w ddweud), chwarae dominos, y theatr a'r ddrama Gymraeg, yn ogystal â chymdeithasu dros beint neu ddau yn y Leion gyda'i eneidiau hoff cytûn, go brin fod modd inni honni iddo gael bywyd gwag.

Cymwynaswr – dyna'r gair sydd wedi bod yn atseinio yn ein ty ni gan gymaint ohonoch yn ystod y diwrnodau diwethaf. A dyna oedd o, wrth gwrs. Cymwynaswr i'w deulu; cymwynaswr i amryfal gymdeithasau, a chymwynaswr mawr i'w ardal. Mi ddywedodd o wrtha'i droeon fod helpu'r genhedlaeth hŷn yn hollbwysig iddo, boed hynny'n dorri gwair, neu lanhau simneau tân, neu dorri coed. Yn eironig ddigon, gobeithiai o gael ei drin yn yr un modd pan fyddai yntau'n hen. Mi ddywedodd wrtha'i hefyd mai dyna pam y mynnai aros yn y Gwasanaeth Tân – nid er mwyn arian y peryglai ei fywyd, ond am ei fod yn falch o roi rhywbeth bach yn ôl i'r gymuned a garai gymaint.

Fe gredai'n angerddol hefyd fod angen i bawb roi hwb i gymdeithasau a sefydliadau lleol, a dyna pam y gwnaeth bopeth o fewn ei allu i gefnogi Clwb Pysgota'r ardal a Chymdeithas Adar Ted Breeze Jones, yn ogystal â'r rhan fwyaf o ddramâu a pherfformiadau Cymraeg Theatr Ardudwy. Ychydig iawn o deledu a wyliai, ac yn aml, melltithiai hwnnw am iddo beryglu dyfodol y ddrama Gymraeg!

Brogarwr – dyna air arall yr ydw i'n ei

gysylltu â dad. Ac mi oedd cariad at y fro hon yn llifo drwy ei wythiennau. Yma yn Harlech y bu ar hyd ei oes, ar wahân i gyfnod byr yn yr Amwythig pan fu'n gweithio i gwmni y Rolls-Royce. Roedd o'n adnabod pob cornel, pob cilfach yn yr ardal yma, ac yn gwybod am hanes cymaint o'i rhyfeddodau. Sylwai fod cwrs Afon Dwyryd wedi newid yn llwyr wrth gofio am ei blentyndod melys yn pysgota a chwarae Cowbois-and-Indians ar lan y môr yn Harlech. Gwyddai mai Phillipiaid Ardudwy, y beirdd, a fu unwaith ym Mochras, a gresynai mai 'Shell Island' a elwir bellach ar y man hwnnw. Ac mi daerai Dad yn ddu-las â phawb a alwai risiau enwog Bwlch Tyddiad, Cwm Bychan, yn 'Roman Steps', mai llwybrau'r porthmyn Cymreig oedden nhw.

Yn bendifaddau, roedd Dad yn werinwr diwylliedig – yn un a edmygai y Dr Lewis Lloyd, yr hanesydd lleol, yn ddi-ben-draw; yn un a âi i'r Eisteddfod Genedlaethol a chael modd i fyw yn y Babell Lên yn rowlio chwerthin wrth wrando ar John Ogwen yn adrodd straeon digri' Harri Parri, ac yn un a wirionodd yn lân ar adar – eu lliwiau llesmeiriol, eu trydar peraidd, a'r enwau Cymraeg hyfryd a roddwyd arnynt. Mi fyddai Mam yn tynnu yn ei goes, ac yn dweud ei fod o'n meddwl mwy o'i "birds" nag ohoni hi hyd yn oed! Brynhawn dydd Mawrth diwethaf, mi ffoniodd dad o'i waith, mewn panig llwyr – roedd y byd ar ben! Melltithiai ei hun am iddo anghofio gadael y bwyd adar yn yr ardd i'r adar bach. Ychydig a wyddem bryd hynny mai dyna fyddai ei brynhawn olaf yn yr Atomfa; ei bryder olaf am y "birds". Wrth gwrs, fe wyddai Mam yn well na neb am frwdfrydedd heintus ac angerdd digyffelyb fy nhad. Fe wyr y sawl oedd yn ei adnabod yn dda hefyd y gallai'r dyn tân hwn fod fel matshen ar brydiau, yn enwedig pan geisiai rhywun ei wrthwynebu. (Mae Mam bellach yn ystyried prynu ci yn ei le, ond 'wyr hi ddim yn iawn be i gael... ai 'bulldog' neu 'rottweiler'....). Ond ar nodyn mwy difrifol, fe wyr pawb oedd yn agos ato nad oedd yr un asgwrn cas ynddo. Un o wyr anwylaf a charedicaf Harlech oedd Dad; un a garai bro ei febyd a'i thrigolion yn fwy na neb, mae'n siwr gen i, a dyn ei filltir sgwâr.

Mi hoffwn i rwan ddarllen ychydig o eiriau gan Ifan Prichard, cyfaill agos i 'nhad:
"*Ew, ma' Gareth yn driw.*"
Dyna i chi eiriau sydd wedi cael eu hadrodd ganwaith a mwy yn ein ty ni ar hyd y blynyddoedd, a hynny yn dilyn galwad ffôn neu wahoddiad neu gymwynas arall ganddo.

Ac mi *oedd* o'n ddyn triw. Y cyntaf bob amser i gynnig help llaw, yn ffrind ffyddlon, y ffeindia' fyw, ac mae 'niolch iddo am hynny yn ddi-ben-draw.

Ni allwn lai nag edmygu ei gof anhygoel, a'i storfa gyfoethog o hanes Harlech ac Ardudwy. Roedd o'n adnabod pob gronyn o'r lle 'ma. A minnau'n wreiddiol o Drefor, bûm yn ffodus iawn o gael cyfaill fel Gareth, oherwydd trwy ei eiriau a'i frwdfrydedd o y cyflwynwyd imi bob afon a llwybr a llyn, sydd bellach yn agos iawn at fy nghalon.

Tydi hi 'mond fel ddoe pan alwodd o acw ar ddiwrnod ei ben-blwydd ym mis Ebrill y llynedd, a hithau'n haul braf. Y peth cynta' wnaeth o rôl pwyso yn erbyn y giat oedd holi, "'da chi 'di clywed y gog eto?" Roedd o newydd ei chlywed hi y prynhawn hwnnw, ac wedi gwirioni. Roedd o wrth ei fodd gydag adar o bob math, a bu bron iddo fy hitio ar fy nhrwyn sawl tro wrth inni fynd am dro- wedi iddo lygadu rhyw 'dderyn prin neu'i gilydd. Mi fyddai'n stopio'n stond, yna'n stwffio'i sbinglas yn wyllt o 'mlaen er mwyn i minnau hefyd gael gweld!
Ro'n i wrth 'y modd yng nghwmni Gareth, gan y byddai ganddo bob amser stori dda i'w hadrodd, a chwerthin iach i'w dilyn. Yn aml iawn byddai o'n cael trafferth gorffen ei stori gan y byddai'n chwerthin gormod i gario 'mlaen! Mae gen i atgofion melys hefyd o gyfnod 'Clwb y Ceffyl Dur' pan oedd Emyr a Margaret yn rhedeg y clwb. Byddai criw ohonom yn beicio yno am beint, ac yn cael oriau o hwyl gyda'n gilydd.

Roedd o'n Gymro i'r carn, ac yn ddyn diwylliedig dros ben. Mae'n anodd coelio na fydd galwad ffôn sydyn arall ganddo,

ac yntau wedi trefnu rhywbeth arall difyr ar ein cyfer.

Heb os, roedd ei natur benderfynol yn rhinwedd arall o'i gymeriad y byddwn yn ei edmygu. Nid *dweud,* beth am wneud hyn neu'r llall fyddai Gareth, ond yn hytrach sicrhau ein bod yn *gwneud* y pethau hynny. Boed yn drip i wylio moto-beics, yn ddrama Bara Caws neu'n gyngerdd Edward.H... Gareth, bob amser, oedd y trefnydd parod. Un o'r pethau olaf iddo ei drefnu ar ein cyfer oedd noson yn y Ring, Llanfrothen, pan oedd Stuart Jones yno'n trafod bywyd a gwaith Wil Sam, bu chwerthin mawr y noson honno ac anghofia i fyth mo hynny.

Gallwn ysgrifennu cyfrolau yn son am fy atgofion gyda Gareth, ond credaf fod yr englyn bach hwn gan Twm Gwydr Bach o Drefor yn crisialu ein cyfeillgarwch i'r dim:

*"Cyfaill yw'r un sy'n cofio- ei frawd hoff*
*Mewn dwfn ddwr bron suddo,*
*Fe rydd ei fara iddo*
*Neu ddarn aur yn ei ddwrn o."*

Braint oedd dy adnabod, diolch am bopeth Gar. Roeddet yn well na'r un brawd i mi.

Cyn cloi, mae'n briodol nodi i Dad dorri ei galon yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan sylwai fod Harlech, y dref a garai gymaint, ac a roes fodd i fyw iddo, yn gweddnewid o flaen ei drwyn; roedd yn tristáu wrth feddwl nad oedd o bellach yn adnabod hanner y bobl a welsai pan aethai i'r dref. Yn ôl y Dr John Davies, yr hanesydd: "*In the Welsh-speaking areas, there were a host of communities in which everyone spoke Welsh in the 1950s, and the great majority in the 1970s, but which were, by the early twenty-first century, wholly dominated by people whose origins were in England.*" Deallai fy nhad yn dda fod Harlech yn un o'r cymunedau hyn a erydwyd. Deallai nad bygwth Cymreictod yr ardal yn unig a wnâi'r mewnlifiad hwn, ond lladd brawdoliaeth gynhenid y gymuned, a pheryglu'r gwareiddiad Cymreig. Deallai, fel y rhan fwyaf ohonon ni, na wnâi gwleidyddion San Steffan na'r Cynulliad hanner digon i ddiogelu ein ffordd ni o fyw, ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hunaniaeth drwy sicrhau gwaith o safon i werin bobl Cymru.

Ond efallai y gallwn ni i gyd yn ein trallod heddiw gyd-lawenhau yn y frawdoliaeth, yr agosatrwydd a'r cariad sy'n teyrnasu yma, a hynny yn nannedd gwerthoedd imperialaidd a chyfalafol hunanol, rhemp y wladwriaeth sydd ohoni.

O ran y teulu oll, hoffwn ddiolch o waelod fy nghalon am y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth a ddangoswyd aton ni yn ein profedigaeth enbyd. Bu Dad yn gymwynaswr mawr i'w gymuned, ac fe'i dychmygaf rwan yn gwenu arnom yn wylaidd wrth inni i gyd dalu ein parch olaf iddo. Braint o'r mwyaf fu cael tad o'r fath – fe ddysgaist ti gymaint imi; diolch iti am bopeth, Dad.

Englynion Huw Dafydd Jones iddo:

*Rhannwyd ag eira Ionawr - y newydd*
*A'n trawodd yn ddirfawr,*
*Yn ei nerth, fywyd gwerthfawr*
*O'i rawd yr aeth - daeth ei awr.*

*Byw i'w ardd, llên a barddas, - yn gyfaill*
*Â'r gofal ac urddas,*
*Gwr addfwyn ei gymwynas*
*Un yn driw i'w fro a'i dras.*

*Rhodiai erwau'r ehedydd - yn y grug,*
*Dros y graig a'r gweunydd,*
*O^l ei droed, drwy y coedydd,*
*Yn y dail ar derfyn dydd.*

*Caniad yr alwad olaf - a'i galwodd*
*Gyda'i golyn eithaf,*
*Yno'n hy', er cofio'r haf*
*Bydd gwayw bedd y gaeaf.*

# Martin Mere

Rhodri Dafydd

**Dechrau blwyddyn arall, a pha ffordd well i gychwyn na thaith i warchodfa o eiddo'r '*Wildfowl and Wetlands Trust*' – sy'n enwog am adar y dŵr yn arbennig – ie, Martinmere.**



WWT

Fe gofiwch efallai i Gymdeithas Ted Breeze Jones drefnu taith yma yn ôl yn 2005 (Gweler *Llygad Barcud* 4) – a doeddwn i heb fod yn ôl ers hynny. Byddai'n ddiddorol, felly, cael dychwelyd i weld pa adar difyr a wel'swn y tro hwn! Yn arbennig felly yn 2010, gan fod y warchodfa yn dathlu ei phenblwydd yn 35 mlwydd oed eleni.

Fum i erioed yn un i restru pethau, rhy chwit chwat a di-lun am wn i, ond i rai mae cofnodi a rhestru yn rhan bwsig o adarydda. Rhestr adar gydol oes, rhestr adar Gymreig, Brydeinig, gyfandirol, fyd-eang – bydd rhai wrth eu bodd yn cofnodi er mwyn rhoi ar gof a chadw bob aderyn a welwyd, gan felly storio atgofion am le ac amser mewn llyfr poced. Un felly yw Gareth fy ffrind – ac roedd o am ddechrau 2010 mewn steil! '*O leiaf 70 o rywogaethau heddiw Rodders*!' - dyna'i darged am y diwrnod – a byddai Martinmere yn lle godidog i gyrraedd y rhif hwnnw!

Roedd y rhestr wedi dechrau cyn i mi gyfarfod Gareth ger garej y '*Black Cat*' yng Nglan Conwy – aderyn du, robin goch, turtur dorchog, a thitwod mawr a

bach yn yr ardd, brain a gwylanod lu ar hyd yr A55 – cychwyn da ar ddiwrnod oedd wedi gwawrio'n ogoneddus.

Ar y ffordd ychwanegwyd at y rhestr gyda chornchwiglod, gylfinirod, jac dô's ac adar to. Mewn un cae, ar gyrion cyffordd yr M6, roedd criw o 'sgwarnogod yn eistedd yn y canol, nid yn paffio eto, dim ond meddwl am y peth o bosib – rhy gynnar a rhy oer i godi dyrnau, siwr o fod!

O'r diwedd dyma gyrraedd '*Curlew Lane*' – lle da amdanynt erstalwm efallai, ond nid i ni heddiw beth bynnag... a chyrraedd maes parcio Martinmere. Wrth agor drws y fan dyma glegar cannoedd o wyddau yn ein cyfarch. Ew, dyna sŵn da! Sŵn y byddaf ran amlaf yn ei gyslltu a'r hydref, pan yn disgwyl gweld 'V' enfawr uwch fy mhen yn hedfan tua'r de. Efallai fod y rheiny wedi rhannu cwmni a rhai o adar Martinmere yn ystod haf byr yr Arctig? Fodd bynnag, aros yma wnaeth y rhain dros y misoedd oer, gan fwydo ar yr arfordir a dychwelyd yn eu cannoedd gyda'r hwyr i glwydo yng ngodidogrwydd y warchodfa enwog hon.

Wedi mynd drwy'r fynedfa (a cherdded heibio i'r siop – mae llawer gormod o lyfrau adaryddol diddorol - a drud - ar werth yma!) mae dau ddewis ym Martinmere, fel mewn sawl lle arall yn y byd - i'r chwith ynteu i'r dde?! I'r dde a ni, gan aros ymhob cuddfan ar y ffordd. Mae ffenestri ar y guddfan gyntaf, a'r rheiny yn ddigon derbyniol i ni gan ei bod bellach wedi dechrau pigo bwrw, mwya'r piti. Druan o'r cornchwiglod, elyrch, gwyddau, hwyaid, gylfinirod a rhostogion y tu allan!

Rhaid edrych drwy'r heidiau am rhywbeth anghyffredin... peth digon anodd i'w wneud a dweud y gwir gan fod eu hanner a'u pennau yn eu plu a'r hanner arall yn nofio neu gerdded ymysg eu gilydd blith drafflith nes hawdd mynd ar goll yn eu canol. Ymysg yr elyrch a'r gwyddau dyna hwyaden lygad aur... llostfain... hwyaid gwyllt....creyr glas yn y pellter... a beth yw hwn? Wel ie wir – dyma bibydd torchog – nas gwelais ei debyg ers roeddwn yma y tro dwytha. Dyna sy'n wych am y cuddfannau hyn – cael bod mor agos at yr adar nes gallu sylwi ar y gwahaniaethau bychain rhwng y rhywogaethau nad yw bob tro'n hawdd i'w wneud yn y maes.

Wedi treulio amser digonol (clywais ddywediad da yn ddiweddar – sef nad yw'n bosib cael digon, ond ei **bod** yn bosib cael gormod! Dywediad sy'n wir am fwy nag un peth mewn bywyd, mi dybiaf!) yn y cwt cyntaf yma, symud ymlaen i'r guddfan nesaf, gan sylwi ar y ffordd ar unrhyw symudiad yn y gwrychoedd neu'r coed sy'n tufu o bobtu'r llwybr. Robin goch, llwyd y gwrych – a beth oedd hwnna y tu ôl i'r goeden, draw yn y llwyn? Aros, craffu, a dyna fo eto – wel wir dyna fras y cyrs. Un anghyffredin ac annisgwyl i restr Gareth.

A dyna ni felly y drefn am y diwrnod – symud o un guddfan i'r llall yn araf a hamddenol braf, gan edrych ar adar y gwlyptir yn mynd o gwmpas eu pethau - yn ddiarwybod fod degau ar ddegau o bobl yn sullu arnynt drwy delesgopau a sbienddrychau o'r tu ôl i slatiau pren. Ysbaid yn y coed a'r gwrychoedd, ac yn ôl i mewn i guddfan arall o gyrraedd y gwynt a'r glaw.

A ninnau bron a chyrraedd terfyn y llwybr penodol yma dyna gip ar haid o olfanod y mynydd o gwmpas y man bwydo. Hawdd eu gwhaniaethu oddiwrth yr adar y to oblegid y man du ar bob boch a'r cap brown. Cofiaf yn iawn eu gweld yma y tro dwytha - mae'n rhaid eu bod yn cael bywyd braf, a'u bara beunyddiol yn cael ei ddarparu iddynt. Waeth be feddyliwch chi o artiffisialedd cynnal poblogaethau adar fel hyn, does dim byd sicrach na bod bwydo adar dros y gaeaf, yn enwedig gaeaf mor oer ag a gafwyd eleni, yn fendith iddynt.

Hedfanodd y bore heibio, er fod yr oriau segur mewn siediau oer, tamp wedi gwneud i mi fferu hyd fy esgyrn erbyn hyn! Pan oeddem ar fin gadael y guddfan olaf cymerais un sgan arall dros y gwlyptir o'm blaen – a dyna sylwi ar haid o adar yn codi – yr oedd rhywbeth wedi eu dychryn! A dyna symudiad chwim yng nghornel fy llygad – cudull bach yn hela'n isel dros y gors. Wel am gyffro i ddod a'r bore i ben. Ac ar hynny dyna gofio eto – iesgob dwi'n oer!


Yn ôl i'r ganolfan groeso i gynhesu tipyn gyda phryd cynnes a phaned o de cryf yn y caffi – a'r ddau siwgr yn gwneud yr melysu'r hylif poeth a'i wneud yn fwy derbyniol nag arfer heddiw!

Wedi dod atom ein hunain (a gallu teimlo fy mysedd eto) ymlwybro allan – i gyfeiriad gwahanol y tro hwn a heibio i'r pyllau ble cedwir yr holl adar dof (ac yn wir y dyfrgwn a'r afancod, bellach). Bu i ni ryfeddu at liwiau'r hwyaid mwythblu yma yn enwedig, a'r ceiliog yn werth ei weld yn enwedig gan fod llygedyn o haul wedi meiddio torri drwy'r cymylau i'w oleuo am ennyd. Bendigedig. A dyna'r *Nene*, gwydd brin Hawaii, aderyn hardd arall sy'n cael ei magu yma yn Martinmere er mwyn ceisio sicrhau parhad y rhywogaeth unigryw yma.



Kathleen Brown

Aethom am dro hamddenol o amgylch y pyllau amrywiol sydd wedi eu rhannu yn ranbarthau sy'n cyfateb i'r cyfandiroedd, gan weld adar arbennig megis y garanod gwahanol, elyrch du Awstralia, hwyaid y coed o'r Unol Daleithiau – yn wir ymron pob rhywogaeth y gallech feddwl amdanynt – yn y cyd-destun dŵr croyw efallai!




WWT

Roedd rhan o'r ardal hon o'r warchodfa wedi ei chau oherwydd yr holl rew oedd yn gordduddio'r llwybrau tarmac – pryderon iechyd a diogelwch oedd y tu ôl i'w cau heb os, ond allai neb eu beio oherwydd roedd wirioneddol yn beryg

bywyd dan draed! Trueni mawr dros yr holl adar, a'u cartrefi wedi'u cloi dan iâ am gyfnod.

Aethom allan o'r rhan hon o'r warchodfa drwy giât drydanol, uchel '*Jurassic Park*'aidd – gan ofyn y cwestiwn ai hwyaid oedd yn cael eu cadw yma ynteu ryw *Dyrannosaurus rex* cigysol?! Ond roeddem yn awr ar y llwybr sy'n arwain at y berlen yng nghoron y warchodfa – cuddfan boda'r gwerni.



WWT

Nid fod gennym fawr o siawns o weld un o'r rheiny heddiw – byddem yn fwy tebygol o weld boda tinwyn os rhywbeth, gan fod nifer ohonynt yn symud i lawr o'u tiriogaethau magu i'r arfordiroedd a'r aberoedd dros fisoedd y gaeaf. Yn anffodus welsom ni 'run o'r rhain chwaith – ond a oes syndod bellach, gan fod yr aderyn hwn yn dal i ddioddef erledigaeth ddychrynllyd yn Lloegr fel nad oes ymron yr un pâr yn llwyddo i fagu yn flynyddol bellach?

Eisteddasom yn y guddfan drawiadol hon am amser maith, gan edrych allan dros y gors – gan hanner gobeithio gweld gwalch bach arall, neu dylluan wen efallai, yn manteisio ar olau dydd gwan y gaeaf. Yn y pellter roedd gwyddau yn bwydo, a gwel'som am y tro cyntaf eleni wyddau duon cyn iddynt ddiflannu i lawr o'n golwg i ryw bant yn y gors.

Ag eithrio'r bwncathod oedd fel delwau ar bron bob polyn ffens (yn edrych am lygod cyntaf y gwyll o bosib?) welsom ni ddim mwy o adar ysglyfaethus.

Yn hytrach, yr hyn a gawsom oedd y wefr fythgofiadwy o weld cannoedd ar filoedd o wyddau o bob math yn dychwelyd i glwydo yn niogelwch (cymharol) y warchodfa. Gellid eu gweld yn dod i mewn o'r arfordir yn heidiau – rhai yn enfawr, rhai yn llai - a'r siâp 'V' yn amlwg. Yr oedd ambell i siot i'w chlywed yn y pellter – ond yma, o leiaf, roeddynt yn saff am noson arall. Daethant i mewn yn rhengoedd, gan syrthio a chwyrlio i'r llawr, rhai yn osgeiddig, rhai braidd yn anniben – ond oll yn rhyfeddol.

Yr oedd wedi sychu rhywfaint erbyn hyn, er yn oerach fyth oherwydd hynny. Ac felly, gyda golau prin y gaeaf yn pylu fesul munud, dyna benderfynu ei throi hi am adref, a chlegar y gwyddau yn ein byddaru wrth i ni ymlwybro'n ôl tua'r fan.

Faint o adar welodd Gareth ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn? Wel a dweud y gwir, wnes i ddim hyd yn oed meddwl gofyn – dim ond rhif ydy o wedi'r cyfan yntê?!

'Wildfowl and Wetlands Trust'

Martin Mere Wetland Centre
Fish Lane, Burscough, Lancashire, L40 0TA

T: 01704 895181
F: 01704 892343
E: info.martinmere@wwt.org.uk

http://www.wwt.org.uk/visit-us/martin-mere

## Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

### Ebrill – Gorffennaf, 2010

Dydd Sadwrn, Ebrill 17eg

**Craig y Benglog a'r cyffiniau.** Dan arweiniad Ieuan Bryn

Cyfarfod wrth Neuadd y Pentref, Rhyd-y-main (SH 805 221) am 10.15yb

Dydd Sadwrn, Mai 1af

**Parc Glynllifon a'r cyffiniau.** Dan arweiniad Sian Jones

Cyfarfod ym maes parcio Parc Glynllifon (SH 453 555) am 10.30yb. Bydd raid talu am barcio.

Dydd Sadwrn, Mai 15fed

**Coedydd Parc Padarn.** Dan arweiniad Twm Elias

Cyfarfod ym maes parcio'r Amgueddfa Lechi, Llanberis (SH 585 603) am 10.30yb. Bydd raid talu am barcio.

Dydd Sadwrn, Mehefin 19eg

**Ynys Lawd a Mynydd Twr** Dan arweiniad Huw Dafydd

Cyfarfod ym Maes Parcio'r RSPB, Ynys Lawd (SH 210 818) am 10.30yb

Byddwn yn trefnu ymweliad â **Morfa Dyfi** i weld y gweilch y pysgod yno – y dyddiad i'w benderfynnu

---

## Gweithdai Dathlu Cob 200

Yn dilyn ein penderfyniad i baratoi taflen a llyfryn ar adar y Cob, fel rhan o ddathliad 200 mlwyddiant y Cob, Porthmadog yn 2011, byddwn yn cynnal cyfres o weithdai i lunio a pharatoi'r cyfryw gyhoeddiadau [*dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr*]. Cynhelir y 5 gweithdy cyntaf ym Mhlas Tan y Bwlch ar nosweithiau Mawrth bob bythefnos o ganol Mai hyd canol Gorffennaf. Croeso i bawb ymuno â ni.
Dyma'r dyddiadau:

**Mai 18fed, Mehefin 1af, Mehefin 15fed, Mehefin 29ain a Gorffennaf 13eg**

- y cyfarfodydd i gychwyn am 6.30yh

Manylion pellach: Twm Elias, 01766 772 610

*[Bydd cyfres arall i orffen y gwaith ym Medi /Hydref; manylion i'w cyhoeddi eto]*


PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

# Plas Tan y Bwlch

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600